# Y DYSTYSGRIF HER SGILIAU CENEDLAETHOL/ SYLFAEN

# A BAGLORIAETH CYMRU CENEDLAETHOL/SYLFAEN (Ymgeiswyr blwyddyn 11 yn unig)

## Llawlyfr Gweinyddu 2025-2026

MEDI 2025





© WJEC CBAC Ltd.

**1. RHAGARWEINIAD .......... 4**

1.1 Ynglŷn â'r ddogfen hon .......... 4
1.2 Manylion Cyswllt .......... 5

**2. YMRESTRU .......... 6**

2.1 Gofynion ymrestru .......... 6
2.2 Codau ymrestru .......... 7
2.3 Data sylfaenol ymrestru .......... 7
2.4 Dyddiadau a ffioedd ymrestru .......... 7
2.5 Ymrestru pan fydd ymgeisydd yn symud i ganolfan arall yn ystod cwrs .......... 7

**3. COFRESTRIADAU A FFIOEDD .......... 8**

3.1 Data sylfaenol cofrestru .......... 8
3.2 Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen .......... 9
3.3 Dyddiadau a ffioedd cofrestru .......... 10
3.4 Ailsefyll .......... 10
3.5 Ailsefyll a chyfnewid .......... 10
3.6 Gwaith ymgeisydd sy'n trosglwyddo canolfannau yn ystod cwrs .......... 11

**4. GWYBODAETH AM AGREGU .......... 12**

4.1 Ffurflen AOI1 .......... 12

**5. E-GYFLWYNO .......... 13**

**6. CYMEDROLI .......... 14**

6.1 Cadw gwaith a asesir yn fewnol yn ddiogel .......... 14
6.2 Cyflwyno Marciau Asesiad Mewnol .......... 14
6.3 Sampl i'w Gymedroli (Wedi'i ddiwygio) .......... 15
6.4 Dogfennau Gofynnol .......... 16
6.5 Cymedroli mewnol .......... 16
6.6 Cymedroli allanol .......... 16
6.7 Adborth .......... 17
6.8 Dyddiadau cymedroli .......... 17
Ionawr 2026 .......... 17
Mehefin 2026 .......... 17

**7. CANLYNIADAU .......... 17**

7.1 Canlyniadau .......... 17
7.2 Ymholiadau agregu .......... 18
7.3 Adolygu'r cymedroli ar ôl y canlyniadau .......... 18
7.4 Tystysgrifau .......... 19

**8. CYMWYSTERAU ATEGOL AR GYFER BAGLORIAETH CYMRU (YMGEISWYR BLWYDDYN 11 YN UNIG) .......... 20**

8.1 Gofynion cymwysterau ategol .......... 20
8.3 Cymwysterau Mathemateg a Saesneg a gyflawnir y tu allan i'r DU .......... 21

**9. GRADDIO AC ADRODD YN ÔL .......... 22**

9.1 Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen .......... 22


© WJEC CBAC Ltd.

**10. TREFNIADAU MYNEDIAD AC YSTYRIAETH ARBENNIG .......... 23**

10.1 DIFFINIADAU .......... 23
10.2 GWEITHREDU TREFNIADAU MYNEDIAD YN YR HERIAU AC YN Y PROJECT UNIGOL .......... 23
10.3 GWEITHREDU YSTYRIAETH ARBENNIG YN Y PROJECT UNIGOL .......... 24
10.4 GWAITH AR GOLL SYDD WEDI'I ASESU GAN GANOLFANNAU .......... 24
10.5 EITHRIADAU .......... 24
10.6 SENARIOS POSIBL .......... 25
10.7 GWYBODAETH BELLACH .......... 25

**11. CAMYMDDWYN .......... 26**

**12. GEIRFA .......... 27**

**13 ATODIADAU .......... 28**

13.1 GORGYFFWRDD RHWNG Y PROJECT UNIGOL Â CHYMWYSTERAU ERAILL .......... 28

**Noder: gallai'r ddogfen hon newid. Byddai'n syniad da i chi ddarllen y fersiwn electronig sydd ar gael ar wefan CBAC er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf.**


© WJEC CBAC Ltd.

# 1. RHAGARWEINIAD

## 1.1 Ynglŷn â'r ddogfen hon

Yn y Llawlyfr Gweinyddu hwn, ceir y wybodaeth sy'n hanfodol i ganolfannau CBAC yng Nghymru wrth iddynt weinyddu'r Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen a Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen ar gyfer 2025/2026.

Bydd y cymhwyster Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen yn cael ei ddyfarnu'n llawn am y tro olaf yn Haf 2026, gyda'r cyfle i ail-sefyll ar gael yn 2027 yn unig. O fis Medi 2025 ymlaen, bydd ymgeiswyr yn cwblhau'r Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen yn unig. Cyfeiriwch at gylchlythyr Rhif. 129.

Mae'r Dystysgrif Her Sgiliau yn cynnwys pedair cydran.

- Project Unigol
- Her Menter a Chyflogadwyedd
- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Her y Gymuned

Rhaid i Ymgeiswyr gwblhau'r Project Unigol yn ogystal ag unrhyw ddwy o'r tair cydran Her.

Bydd canlyniadau cyfunol y tair cydran yn pennu canlyniad y Dystysgrif Her Sgiliau, a rhaid i ymgeiswyr gyflawni pob un o'r 3 cydran er mwyn ennill y Dystysgrif Her Sgiliau. Bydd hyn, yn ogystal â'r cymwysterau ategol gofynnol (i'r rhai sy'n cyflawni yn 2026) yn pennu canlyniad Bagloriaeth Cymru gyffredinol.

Mae Bagloriaeth Cymru yn seiliedig ar y Dystysgrif Her Sgiliau ynghyd â chymwysterau ategol eraill.

**Rhaid** defnyddio'r Llawlyfr Gweinyddu gyda'r cyhoeddiadau canlynol:

- Manyleb(au) y cymhwyster ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen a chymhwyster/chymwysterau Bagloriaeth Cymru penodol a gyflwynir;
- Cyfarwyddiadau CBAC ar gyfer cynnal Asesiadau dan Reolaeth;
- Y Llawlyfrau Athrawon ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen a chymhwyster/chymwysterau Bagloriaeth Cymru penodol a gyflwynir;
- Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau CBAC.

Mae manyleb y cymhwyster, Cod Ymarfer y Canolfannau a'r Llawlyfr Athrawon i'w cael ar dudalen y cymhwyster perthnasol yn www.cbac.co.uk


© WJEC CBAC Ltd.

Mae'r ddogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau ar gael o dan Cofrestriadau yn adran Gweinyddu y wefan.

## 1.2 Manylion Cyswllt

Ar gyfer unrhyw ymholiadau ynglŷn â materion gweithredol y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon, cysylltwch ag aelod o Dîm Gweithrediadau Bagloriaeth Cymru:

| **Am ymholiadau gweinyddol cyffredinol cysylltwch â:**<br>02922 404250 neu wbq@cbac.co.uk | | | |
|---|---|---|---|
| Laura Hughes | Cefnogi Cwsmeriaid – Uwch Swyddog (Sgiliau a Llwybrau) | ☎<br>🖂 | 029 2026 5001<br>laura.hughes@wjec.co.uk |
| Helen Hibbert | Cefnogi Cwsmeriaid – Swyddog Gweinyddol Bagloriaeth Cymru | ☎<br>🖂 | 02920265186<br>helen.hibbert@wjec.co.uk |
| Ymholiadau agregu ar ôl rhyddhau'r canlyniadau | | 🖂 | wbq@wjec.co.uk |


© WJEC CBAC Ltd.

# 2. YMRESTRU

## 2.1 Gofynion ymrestru

Rhaid i'r holl ymgeiswyr Cenedlaethol/Sylfaen sy'n ymgymryd â Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen o fis Medi 2025 ymlaen ymrestru gyda CBAC erbyn 31 Hydref 2025.

Gofynnir i ganolfannau ymrestru manylion personol ymgeiswyr unigol:

- Rhif yr ymgeisydd;
- Enw'r ymgeisydd;
- Dangosydd Ymgeisydd Unigryw (UCI);
- Rhif Dysgwr Unigryw;
- Rhywedd;
- Dyddiad geni;
- Y cymhwyster yr ymrestrir amdano.

**Rhaid** i ganolfannau ddefnyddio'r **Rhif Dysgwr Unigryw** yn yr holl ffeiliau cyfnewid data electronig (EDI) a gyflwynir, a allai gael eu defnyddio ar gyfer agregu Bagloriaeth Cymru.

**ULN**

Rhif 10 digid yw'r Rhif Dysgwr Unigryw sydd wedi'i lunio i alluogi creu cofnod cyrhaeddiad gydol oes. Mae Llywodraeth Cymru yn hwyluso dosbarthu Rhif Dysgwr Unigryw i bob disgybl 14 oed a hŷn ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru.

Ni fydd gan ymgeiswyr sy'n ymrestru ar gyfer y cymhwyster Cenedlaethol/Sylfaen am y tro cyntaf fynediad at eu Rhif Dysgwr Unigryw pan fyddant yn ymrestru. **Rhaid** i ganolfannau atodi'r Rhif Dysgwr Unigryw wrth gofrestru Her ar y cyfle cyntaf pan fydd y rhif ar gael.

**Rhaid** cyflwyno ymrestriadau gan ddefnyddio un o'r ffurfiau canlynol:

- Cyfnewid Data Electronig (EDI);
- Porth CBAC

Gellir dod o hyd i wybodaeth am y broses hon yn y ddogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau y gellir ei lawrlwytho yn https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/cofrestriadau/#tab_0


© WJEC CBAC Ltd.

## 2.2 Codau ymrestru

| Cymhwyster | Cod cyfrwng Saesneg cyfrwng | Cod cyfrwng Cymraeg cyfrwng |
|---|---|---|
| Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen CBAC | 9009Q0 | 9009C0 |

## 2.3 Data sylfaenol ymrestru

Gellir lawrlwytho’r data sylfaenol o wefan CBAC:

https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/cofrestriadau/data-sylfaenol/

Y codau cyfres arholiadau a bwrdd CBAC y bydd eu hangen ar gyfer data sylfaenol yw:

| Lefel Arholiad | Cyfres | Cod y Gyfres | Cod y Bwrdd |
|---|---|---|---|
| Ymrestru y Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen | Ymrestriadau Medi 2025 | 9W | 41 |

## 2.4 Dyddiadau a ffioedd ymrestru

Gellir dod o hyd i ddyddiadau ymrestru a ffioedd yn nogfen ffioedd cofrestru CBAC sydd ar gael ar y dudalen Gweinyddu ar wefan CBAC https://www.wjec.co.uk/.

**Rhaid** ymrestru ar ddechrau'r cwrs (e.e. ym mlwyddyn gyntaf cwrs dwy flynedd).

Bydd angen talu **ffi hwyr** a **ffi hwyr iawn** os nad yw canolfannau'n ymrestru ymgeiswyr erbyn y dyddiadau ymrestru sydd wedi'u cyhoeddi.

Rhaid cael ymrestriadau yn eu lle cyn y gellir derbyn cofrestriadau.

**Ni dderbynnir** unrhyw ymrestriadau ar ôl 31 Gorffennaf ar gyfer pob blwyddyn academaidd.

**Ni** ellir ad-dalu cost ymrestriadau.

## 2.5 Ymrestru pan fydd ymgeisydd yn symud i ganolfan arall yn ystod cwrs

Lle mae ymgeisydd eisoes wedi ymrestru drwy ganolfan arall, nid oes angen i'r ganolfan newydd ymrestru o'r newydd. Bydd y ganolfan newydd yn gallu cofrestru ar ran yr ymgeisydd.

Cysylltwch â wbq@cbac.co.uk gydag enw'r ymgeisydd, ei Ddangosydd Ymgeisydd Unigryw (UCI) a'i ddyddiad geni i gadarnhau'r ymrestriad presennol, ac unrhyw gydrannau blaenorol y mae'r ymgeisydd wedi'i gofrestru ar eu cyfer.


© WJEC CBAC Ltd.

# 3. COFRESTRIADAU A FFIOEDD

**Rhaid** i'r Project Unigol ac unrhyw ddau o'r Heriau gael eu cofrestru ar wahân. Ar gyfer yr ymgeiswyr sy'n cyflawni'r cymhwyster yn 2026, rhaid cofrestru i gyfnewid Bagloriaeth Cymru a chyfnewid y Dystysgrif Her Sgiliau yr un pryd er mwyn i'r cofrestriad gael ei dderbyn – nid oes modd cofrestru ar gyfer cyfnewid y naill na'r llall fel cymhwyster ar ei ben ei hun, yn y lle cyntaf, (gweler adran 3.6 am fanylion pellach).

Gellir cyflwyno cofrestriadau trwy ddefnyddio un o'r ffurfiau canlynol:

- Cyfnewid Data Electronig (EDI);
- Porth CBAC.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth ynglŷn â'r broses gofrestru yn nogfen Dulliau Cofrestru a Gwybodaeth am y Codau CBAC, sydd ar gael yn https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/cofrestriadau/#tab_0

## 3.1 Data sylfaenol cofrestru

Gellir lawrlwytho'r data sylfaenol o wefan CBAC: https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/cofrestriadau/data-sylfaenol/

Y codau cyfres arholiadau a bwrdd CBAC y bydd eu hangen ar gyfer data sylfaenol yw:

| **Math o Arholiad** | **Cyfres** | **Cod y Gyfres** | **Cod y Bwrdd** |
|---|---|---|---|
| Bagloriaeth Cymru | Ionawr 2026 | 1W | 41 |
| Bagloriaeth Cymru | Mehefin 2026 | 6W | 41 |


© WJEC CBAC Ltd.

## 3.2 Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen

Gellir cyflwyno cofrestriadau ar gyfer yr Heriau naill ai ar gyfer cyfres Ionawr neu gyfres Mehefin yn ystod dwy flynedd y cwrs. **Rhaid** i gofrestriadau ar gyfer y Project Unigol gael eu cyflwyno yn ystod ail flwyddyn y cwrs naill ai yng nghyfres Ionawr neu yng nghyfres Mehefin.

Ar gyfer 2025/2026, **rhaid defnyddio codau cofrestru** cyfnewid er mwyn agregu sgorau a dyfarnu gradd gyffredinol ar gyfer y Dystysgrif Her Sgiliau a Bagloriaeth Cymru**.** Dim ond pan fydd yr ymgeisydd eisoes wedi cwblhau neu wedi'i gofrestru ar gyfer yr holl gydrannau, ac yn cwblhau'r Cymwysterau Ategol y bydd hyn ar gael ar gyfer cyfres Mehefin.

Rhaid cofrestru am y Project Unigol a'r ddwy her yn unig gan ddewis yr un cyfnewid sy'n cyfateb i'r Heriau, yn ôl yr amlinelliad yn y tablau isod

| | Cenedlaethol/Sylfaen Tystysgrif Her Sgiliau Cod Cyfnewid | |
|---|---|---|
| | **Saesneg** | **Cymraeg** |
| **Llwybr A*** | **90S9 PA** | **90S9 LA** |
| **Llwybr B**** | **90S9 PB** | **90S9 LB** |
| **Llwybr C***** | **90S9 PC** | **90S9 LC** |

**Llwybr A*** **Project Unigol , Menter a Chyflogadwyedd a Dinasyddiaeth Fyd-eang**

**Llwybr B**** **Project Unigol , Menter a Chyflogadwyedd a Cymuned**

**Llwybr C***** **Project Unigol, Dinasyddiaeth Fyd-eang a Cymuned**

| Cenedlaethol/Sylfaen Cyfnewid | |
|---|---|
| **Saesneg** | **Cymraeg** |
| **9009Q0** | **9009C0** |


© WJEC CBAC Ltd.

## 3.3 Dyddiadau a ffioedd cofrestru

Cyhoeddir dyddiadau a ffioedd cofrestru ym mis Medi a gellir eu gweld ar wefan CBAC yn y ddogfen Ffioedd Cofrestru CBAC 2025-26 sydd ar gael yma:

https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/cofrestriadau/#tab_0

Mae'r Dyddiadau Allweddol ar gyfer y cymhwyster Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen i'w gweld yma:

https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/dyddiadau-allweddol-ac-amserlenni/#tab_0

## 3.4 Ailsefyll

Bydd gan ymgeiswyr un cyfle i ailsefyll pob cydran a asesir, hynny yw, yr Heriau a'r Project Unigol.

Rhaid i ymgeiswyr sy'n dewis ailsefyll cydran sefyll asesiad gwahanol i'r gwaith a aseswyd yn wreiddiol. Mae hyn yn golygu:

- na allant wella ar waith sydd eisoes wedi'i gyflwyno i'w asesu'n flaenorol.
- rhaid i deitl y gwaith fod yn wahanol i'r hyn a gyflwynwyd yn flaenorol.

Gallai methu â bodloni'r gofynion hyn olygu camymddwyn ac, fel y cyfryw, byddai tîm Cydymffurfiaeth CBAC yn delio â hyn.

**Rheolau ailsefyll**

Caniateir i ymgeiswyr ailsefyll pob cydran unwaith, gyda'r marciau uchaf yn cyfrif tuag at radd y cymhwyster. Pe byddai ymgeiswyr eisiau cofrestru i sefyll unrhyw gydran am y trydydd tro, nid oes hawl defnyddio unrhyw ganlyniadau o'r cydrannau a safwyd yn flaenorol wrth gyfansymio'r radd newydd. Felly, rhaid ailsefyll pob cydran yn y cymhwyster.

## 3.5 Ailsefyll a chyfnewid

Pan gaiff yr ymgeisydd y cyfle cyntaf i gyfnewid rhaid cofrestru i gyfnewid y Dystysgrif Her Sgiliau a'r cymhwyster Bagloriaeth Cymru trosfwaol ar yr un pryd. Gellir cofrestru'r ymgeiswyr y dyfarnwyd y Dystysgrif Her Sgiliau iddynt ond nad oeddent yn bodloni meini prawf y cymwysterau ategol, am yr eildro i gyfnewid Bagloriaeth Cymru yn unig yn y gyfres nesaf sydd ar gael. Bydd gwneud hyn yn sicrhau bod agregu yn digwydd ac yr ystyrir unrhyw gymwysterau ategol pellach a enillwyd, cyhyd â bod y dystiolaeth ofynnol wedi'i derbyn

.


© WJEC CBAC Ltd.

## 3.6 Gwaith ymgeisydd sy'n trosglwyddo canolfannau yn ystod cwrs

Bydd canlyniad unrhyw gydran a ddyfarnwyd gan CBAC yn flaenorol yn cael ei drosglwyddo gyda'r ymgeisydd. Fodd bynnag, mewn rhai achosion efallai bydd ymgeisydd yn symud canolfan ar ôl dechrau cydran ond heb ei chwblhau, neu fod y gydran wedi'i chwblhau ond heb ei chyflwyno i CBAC.

Lle mae gwaith wedi'i gwblhau a'i farcio'n llawn a'r datganiadau wedi'u llofnodi ond heb eu cyflwyno i CBAC, mae'r canlynol yn berthnasol:

- Gallai naill ai'r ganolfan 'cwblhau' neu'r ganolfan 'newydd' ddewis cofrestru gwaith ar ran yr ymgeisydd, **yn ôl eu hewyllys.**
- Lle cofrestrir gwaith gan y ganolfan 'gwblhau', dylai'r ganolfan wneud y canlynol:
  - rhoi'r cofrestriad i mewn yn ôl yr arfer, yn y gyfres nesaf sydd ar gael,
  - sicrhau bod y gwaith ar gael i'w gymedroli (os oes gofyn amdano).
  - Trefnu, gyda'r ymgeisydd, ei f/bod yn casglu ei g/chanlyniadau o'r ganolfan pan fyddan nhw'n cael eu rhyddhau.
- Lle mae'r ganolfan 'newydd' yn cofrestru'r gwaith, gallai'r ganolfan 'newydd' gofrestru ar ran yr ymgeisydd, cyn belled bod:
  - Y gwaith wedi'i drosglwyddo o'r ganolfan 'gwblhau' i'r ganolfan 'newydd' drwy'r Swyddogion Arholiadau.
  - Y ganolfan yn fodlon bod y gwaith wedi'i gwblhau dan yr amodau dan reolaeth cywir.
  - Y gwaith wedi'i asesu i'r safon cywir ac wedi bod drwy broses o safoni mewnol.
  - Y gwaith wedi'i storio'n ddiogel yn yr amser rhwng ei gwblhau a'i gyflwyno.

Lle mae'r gwaith wedi'i ddechrau ond heb ei gwblhau, mae'r canlynol yn berthnasol:

- Gallai'r ganolfan 'newydd' ddewis derbyn y gwaith blaenorol a chaniatáu i'r ymgeisydd ei gwblhau, **yn ôl eu hewyllys,** cyn belled bod:
  - Y gwaith wedi'i drosglwyddo o'r ganolfan flaenorol i'r ganolfan 'newydd' drwy'r Swyddogion Arholiadau.
  - Y gwaith wedi'i storio'n ddiogel rhwng sesiynau.
  - Y ganolfan yn fodlon bod unrhyw waith wedi'i ddechrau dan yr amodau dan reolaeth cywir ac sy'n bodloni safonau y ganolfan.

Polisi'r ganolfan ei hun sydd i bennu a ydyw'n derbyn a chyflwyno gwaith blaenorol neu'n gofyn i'r ymgeisydd gwblhau gwaith newydd yn unol â safonau mewnol y ganolfan.

Rhaid i bennaeth y ganolfan gofrestru fod yn fodlon bod y gwaith wedi'i gyflawni, ei gynnal yn ddiogel a'i farcio yn unol â dogfen CBAC Cyfarwyddiadau ar Gynnal Asesiadau dan Reolaeth.


© WJEC CBAC Ltd.

# 4. GWYBODAETH AM AGREGU

Er mwyn cyflawni Bagloriaeth Cymru drosfwaol yn 2026, rhaid i'r ymgeiswyr gyflawni'r Dystysgrif Her Sgiliau ynghyd â'r cymwysterau ategol a nodir. Defnyddir dau ddull i gael y wybodaeth hyn.

I ddod o hyd i dystiolaeth o hyn mae CBAC yn gofyn am wybodaeth gan Sefydliadau Dyfarnu eraill ynghylch data cofrestru a chyraeddiadau blaenorol i'w cydweddu ag ymgeiswyr Bagloriaeth Cymru.

Pan dderbynnir y wybodaeth hon oddi wrth y Sefydliadau Dyfarnu eraill mae'n cael ei chydweddu ag ymgeiswyr a gofrestrwyd yn y gyfres gyfredol.

I ddod o hyd i wybodaeth i gefnogi hyn, mae CBAC yn ei gwneud yn ofynnol i ganolfannau gwblhau ffurflen AOI1.

## 4.1 Ffurflen AOI1

Bydd cwblhau'r ffurflen hon ar gyfer haf 2026 yn hysbysu CBAC gan ba Gyrff Dyfarnu y mae angen i ni gasglu data. Yr unig wybodaeth y mae ei hangen yw manylion y Cyrff Dyfarnu y mae canolfan yn sefyll cymwysterau galwedigaethol Lefel 1 a Lefel 2 gyda nhw yn y gyfres i ddod. Efallai y bydd achlysuron lle nad yw CBAC yn gallu dod o hyd i ddata ar gyfer ymgeisydd penodol. Efallai y bydd yr achosion hyn yn digwydd pan fydd ymgeisydd wedi: symud canolfannau, newid enw, cyflawni'r cymhwyster dramor neu gyflawni cymwysterau Llythrennedd/Rhifedd cyn 2012. Dylai canolfannau nodi hyn ar y ffurflen.


© WJEC CBAC Ltd.

## 5. E-GYFLWYNO

Rhaid cyflwyno holl waith ymgeiswyr yn electronig i'w gymedroli gan ddefnyddio uwchlwytho System Mewnbynnu Marciau Asesiad Mewnol (IAMIS). Mae canllawiau ar ddefnyddio'r system ar gael ar-lein trwy glicio ar y botwm Canllaw Cam wrth Gam ar frig sgrin IAMIS.

Rhaid uwchlwytho'r gwaith erbyn y terfyn amser a restrir ar dudalen 17 y ddogfen hon.

Gellir gweld canllawiau cyffredinol i'r broses e-gyflwyno, gan gynnwys cwestiynau cyffredin, ar y dudalen E-gyflwyno yn adran Gweinyddu www.cbac.co.uk.


© WJEC CBAC Ltd.

# 6. CYMEDROLI

Bydd marciau canolfannau yn cael eu cymedroli'n allanol gan CBAC er mwyn sicrhau bod safonau yn cael eu gweithredu'n gywir ac yn gyson mewn ac ar draws canolfannau.

## 6.1 Cadw gwaith a asesir yn fewnol yn ddiogel

Rhaid cwblhau Heriau'r Dystysgrif Her Sgiliau dan amodau asesiad dan reolaeth. Nodir y rheolaethau hyn yn benodol yn y tabl Rheoli Asesu yn y Llawlyfr Athrawon perthnasol ar gyfer pob lefel a geir ar dudalen we'r pwnc:

**Cenedlaethol/Sylfaen:** Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen: (cbac.co.uk)

Sylwch mai cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod yr holl ddeunydd asesu (gan gynnwys gwaith myfyrwyr) yn cael ei storio'n ddiogel o fewn y ganolfan, fel arfer mewn cwpwrdd dan glo ac yn unol â gofynion y Cyd-Gyngor Cymwysterau. Rhaid storio'r deunyddiau a'r gwaith yn ddiogel drwy gydol y cyfnod asesu ac hyd nes bod y dyddiad cau ar gyfer gwasanaethau ar ôl y canlyniadau wedi mynd heibio. Rhaid casglu'r gwaith a wneir dros nifer o sesiynau ar ddiwedd pob sesiwn a'i storio'n ddiogel. Mae'n rhaid i waith sy'n cael ei gynhyrchu'n electronig gael ei arbed yn ddiogel i sicrhau nad yw'n gallu cael ei ddiwygio rhwng sesiynau.  Dylai gwaith sy'n cael ei storio ar gof bach hefyd gael ei gasglu ar ôl pob sesiwn a'i gadw'n ddiogel.

Bydd methu â chydymffurfio yn golygu camymddwyn a gall olygu bod gwaith yn anghymwys i'w asesu. Rhaid rhoi gwybod am unrhyw achosion o gamymddwyn i dîm Cydymffurfiaeth CBAC a byddant yn cael eu hymchwilio'n llawn.

## 6.2 Cyflwyno Marciau Asesiad Mewnol

Pan fydd cofrestriadau wedi cael eu cyflwyno a'u prosesu gan CBAC, **rhaid** i ganolfannau fewngofnodi i Porth CBAC a chlicio'r botwm 'mewnbynnu marciau asesiad mewnol' (IAMIS). Bydd tudalen we ar gael ar gyfer pob cydran mae'r ganolfan wedi'i chofrestru amdani; bydd y dudalen eisoes yn cynnwys enwau a rhifau'r ymgeiswyr. Bydd angen i ganolfannau fewnbynnu'r **marciau a blaenlythrennau'r aseswr** ar gyfer pob ymgeisydd yn y lleoedd gwag a ddarperir. Bydd gwybodaeth a chefnogaeth bellach i'w cael ar yr amrywiol sgriniau mewnbynnu marciau.

**Cyflwyno canlyniadau** – trwy gyflwyno canlyniadau i CBAC rydych chi'n datgan y canlynol:

- Bod y cymedroli mewnol i gyd wedi ei gwblhau;
- Bod y marciau sydd wedi cael eu cyflwyno yn gywir ac yn ddilys;
- Bod gwaith ymgeiswyr wedi'i gwblhau ac ar gael i'w gymedroli'n allanol.


© WJEC CBAC Ltd.

**Newid marciau ar ôl eu cyflwyno** – Nid yw'n bosibl i'r ganolfan newid marciau ar ôl eu cyflwyno drwy IAMIS. Os sylwir bod marc anghywir wedi cael ei gyflwyno, mae'n rhaid i ganolfannau gwblhau a chyflwyno'r ffurflen gais. Gellir dod o hyd i'r ffurflen gais ar y dudalen fewnbynnu marciau/canlyniadau asesu mewnol ar Porth CBAC. Noder y byddwn yn cysylltu â chi am ragor o wybodaeth os oes angen.

Mae CBAC yn monitro canolfannau sy'n gwneud ceisiadau i newid marciau ymgeiswyr. Mewn rhai amgylchiadau, gellir cysylltu a gofyn wrth Bennaeth y Ganolfan ddarparu gwybodaeth ychwanegol ac mae CBAC yn cadw'r hawl i wneud cais i weld unrhyw waith sy'n gysylltiedig â chais i ddiwygio marciau.

**Newid marciau ar ôl cyhoeddi'r** canlyniadau — os yw athro neu athrawes yn sylwi bod marc anghywir wedi cael ei gyflwyno ar ôl cyhoeddi'r canlyniadau, rhaid i Bennaeth y Ganolfan anfon cais ysgrifenedig yn esbonio'r amgylchiadau yn eglur i'r cyfeiriad isod er mwyn i'r marc gael ei newid. **Rhaid** cynnwys y gwaith ei hun (neu gopi ohono) yn ogystal â thaflen farciau fewnol y ganolfan wedi'i chwblhau, ei llofnodi a'i dyddio gyda'r cais ysgrifenedig hwn. Bydd y wybodaeth hon yn cael ei chyfeirio at y swyddog pwnc. Ar ôl i'r dystiolaeth gael ei hystyried gellir newid y marc neu gellir gwrthod y cais. **Rhaid** derbyn pob cais i ddiwygio marciau a gyflwynwyd gan ganolfannau erbyn **9 Ebrill** (cyfres Ionawr) a **20 Medi** (cyfres Mehefin).

**Mae CBAC yn monitro diwygiadau i farciau sy'n cael eu cyflwyno gan ganolfannau a gall gynnal gwiriadau ychwanegol.**

## 6.3 Sampl i'w Gymedroli (Wedi'i ddiwygio)

Caiff maint y sampl ei seilio ar nifer yr ymgeiswyr a gofrestrir i roi lleiafswm maint y sampl ac wedyn ar nifer yr aseswyr; gydag o leiaf tri ymgeisydd i'w dewis o grŵp pob aseswr. Bydd y sampl yn adlewyrchu'r ystod marciau a ddyfernir, gan gynnwys y marc uchaf ac isaf yn y ganolfan. Bydd samplau'n cael eu dewis yn awtomatig a bydd modd eu gweld ar IAMIS, a bydd rhaid iddynt gael eu huwchlwytho erbyn y dyddiad a nodir.

| ***Cyfanswm yr ymgeiswyr*** | ***Lleiafswm yn y sampl*** |
|---|---|
| 1 – 15 | Pob un |
| 16-100 | 15 |
| 101-200 | 20 |
| Dros 200 | 25 |

**Ymgeiswyr Unigol – rhaid** i waith sy'n rhan o'r sampl fod ar gael i'w gymedroli. Os nad yw gwaith ymgeisydd ar gael, cofnodir y marc fel 0.

**Cofrestriadau a wneir ar ôl cyflwyno'r marciau** – ni ddylai canolfannau gofrestru ymgeiswyr unwaith y mae'r sampl ar gael. Os cofrestrir mwy o ymgeiswyr, mae CBAC yn cadw'r hawl i ofyn am gael anfon y gwaith at y cymedrolwr yn ogystal â'r sampl gwreiddiol. Caiff marc o 0 ei gofnodi am unrhyw waith nad yw'n cael ei anfon at y cymedrolwr pan wneir cais amdano.


© WJEC CBAC Ltd.

**Dilysu** – Rhaid i ymgeiswyr fod yn ymwybodol eu bod yn gyfrifol am sicrhau mai ei gwaith nhw a gyflwynir i'w asesu. Mae dogfen y CGC, Gwybodaeth i Ymgeiswyr – Asesiadau Dan Reolaeth, sydd ar gael ar wefan y CGC (www.jcq.org.uk), yn rhoi cyfarwyddiadau ac arweiniad.

## 6.4 Dogfennau Gofynnol

**Llyfryn Asesu Ymgeisydd** — mae'n rhaid i hwn gael ei gwblhau a'i gyflwyno ar y cyd â gwaith ymgeiswyr. Mae'r llyfryn yn cynnwys y daflen asesu, datganiad yr ymgeisydd a'r aseswr a'r daflen amser asesu ar gyfer lefel Cenedlaethol/Sylfaen. Gellir dod o hyd i'r llyfryn ar Porth CBAC o dan Pob Gwasanaeth > Arholiadau ac Asesiadau > Tasgau Asesiadau Di-arholiad. Rhaid i bob ymgeisydd yn y garfan gwblhau llyfryn Asesu Ymgeisydd (nid y rhai a gynhwysir yn y sampl cymedroli yn unig). Mae'n dderbyniol llofnodi'r dogfennau'n electronig.

## 6.5 Cymedroli mewnol

Dylai'r sampl fod yn **gynrychiadol** o safon marcio'r ganolfan. Mae'n hanfodol bod proses o gymedroli mewnol yn digwydd **cyn** i'r marciau terfynol gael eu cyflwyno i CBAC. Bydd dull addas o gyflawni hyn yn dibynnu ar drefniant y ganolfan ei hun. **Rhaid** i un person gymryd cyfrifoldeb am y broses gymedroli derfynol ym mhob canolfan. **Rhaid i'r aseswr arweiniol ail-asesu sampl o ymgeiswyr pob aseswr.**

## 6.6 Cymedroli allanol

Bydd cymedrolwr CBAC yn ystyried y sampl a gyflwynwyd. Pe bai ymholiad yn codi, gallai CBAC ofyn am ddarparu sampl pellach.

Yn y rhan fwyaf o amgylchiadau lle mae CBAC yn gwneud cais i weld mwy o waith, gweithredir y protocolau canlynol:

- Bydd cymedrolwyr yn cymedrolwyr yn anfon e-bost at Swyddog Arholiadau'r ganolfan i'w rhybuddio bod gofyn am fwy o waith.
- Gofynnir am y darnau ychwanegol o waith trwy'r system IAMIS, gyda'r gwaith ychwanegol y gofynnir amdano yn ymddangos mewn rhestr enghreifftiol wedi'u diweddaru ar gyfer y ganolfan.
- Rhaid i'r ganolfan uwchlwytho'r gwaith y gofynnwyd amdano a'r ddogfennaeth weinyddu ategol i IAMIS o fewn 3 diwrnod gwaith i'r cais gael ei wneud.

Noder na fydd staff CBAC yn trafod y mater gydag unrhyw un heblaw'r Swyddog Arholiadau, ac ni fyddant yn gallu trafod y rheswm pam y gofynnwyd am ragor o waith.

Ar rai achlysuron bydd CBAC yn ymweld â'r ganolfan i weld unrhyw waith ychwanegol y gofynnir amdano.

Mae CBAC yn cadw'r hawl i ofyn am fwy o waith neu i ymweld â chanolfan ar fyr rybudd neu heb roi gwybod ymlaen llaw.


© WJEC CBAC Ltd.

## 6.7 Adborth

Darperir adborth ynglŷn â safoni pan gyhoeddir y canlyniadau, drwy gyfrwng adroddiad cymedrolwr, ar gael ar IAMIS. Bydd adroddiad y cymedrolwr yn cynnig adborth ar:

(i) effeithlonrwydd gweinyddiaeth y ganolfan;
(ii) cywirdeb asesiadau’r ganolfan yn erbyn y meini prawf ac mewn perthynas â’r safon y cytunwyd arni ar gyfer pob un o ddeilliannau dysgu'r gydran;
(iii) a newidiwyd marciau'r ganolfan a'r rhesymau dros wneud hynny.

## 6.8 Dyddiadau cymedroli

### Ionawr 2026

**Cenedlaethol/Sylfaen**

| **Ionawr 2026** | |
|---|---|
| IAMIS ar gael o | **21 Tachwedd** |
| Dyddiad cau cyflwyno gwaith | **19 Rhagfyr** |

### Mehefin 2026

**Cenedlaethol/Sylfaen**

| **Mehefin 2026** | |
|---|---|
| IAMIS ar gael o | **10 Mawrth** |
| Dyddiad cau cyflwyno gwaith | **5 Mai** |

# 7. CANLYNIADAU

## 7.1 Canlyniadau

Cyhoeddir canlyniadau ar Porth CBAC ac fel ffeil cyfnewid data electronig (EDI) ar y dyddiadau canlynol:

| **Cyfres Ionawr** | |
|---|---|
| Cenedlaethol/Sylfaen | 5 Mawrth |

| **Cyfres Mehefin** | |
|---|---|
| Cenedlaethol/Sylfaen | 20 Awst |


© WJEC CBAC Ltd.

## 7.2 Ymholiadau agregu

Gall canolfannau wneud ymholiadau ynglŷn ag **agregu** canlyniadau ymgeiswyr o ddiwrnod cyhoeddi'r canlyniadau hyd at 20 Medi (cyfres Mehefin).

Mae agregu hefyd yn cynnwys cymwysterau ategol sydd ar goll.

Er mwyn cadw'r nifer o ymholiadau agregu ar ôl y canlyniadau yn isel, mae'n hollbwysig bod canolfannau'n darparu gwybodaeth fanwl gywir i CBAC, a chwrdd â therfynau amser yn enwedig o ran manylion adnabod a data ymgeiswyr, e.e. enw cywir a chyson, Dangosydd Ymgeisydd Unigryw i adnabod ymgeiswyr ar draws y canlyniadau i gyd.

Sylwer, ymdrinnir ag ymholiadau agregu yn y drefn y cânt eu derbyn. **Rhaid anfon ymholiadau agregu i gyfeiriad e-bost wbq@cbac.co.uk**.

<table>
<tr><td colspan="3">Tystiolaeth Dderbyniol – Dylai tystiolaeth i gefnogi ymholiadau agregu fod yn:</td></tr>
<tr><td>Ddogfennaeth swyddogol o'r cyrff dyfarnu sy'n gyfrifol a dylai gynnwys:<br><br>• Enw a dyddiad geni'r ymgeisydd<br>• Enw'r corff dyfarnu a logo;<br>• Enw llawn y cymhwyster;<br>• Y canlyniad a gyflawnwyd;<br>• Y dyddiad dyfarnu.<br><br>Enghreifftiau: tystysgrif, sgrinlun o borth/gwefan y Corff Dyfarnu yn dangos cyflawniad ymgeisydd ac ati.</td><td>NEU</td><td>Derbynnir allbrint wedi'i sganio o Gofnod Dysgu Personol (PLR) yr ymgeisydd o Wasanaeth Cofnodion Dysgu'r llywodraeth fel tystiolaeth o gyflawniad, cyn belled â'i fod yn cynnwys y wybodaeth berthnasol.</td></tr>
<tr><td colspan="3">Gellir sganio ac anfon tystiolaeth mewn e-bost i wbq@cbac.co.uk ond rhaid iddi fod yn glir ac yn ddarllenadwy.<br><br>Ni fydd datganiad o ganlyniadau wedi'i gynhyrchu o System Gwybodaeth Rheoli (MIS) canolfan yn cael ei dderbyn fel tystiolaeth.<br><br>Mae CBAC yn cadw pob hawl i wrthod tystiolaeth os nad yw'n bodloni'r meini prawf a restrir.</td></tr>
</table>

## 7.3 Adolygu'r cymedroli ar ôl y canlyniadau

Mae'r broses hon yn adolygu'r cymedroli gwreiddiol er mwyn sicrhau bod y meini prawf asesu wedi'u cymhwyso'n deg, yn ddibynadwy ac yn gyson. Noder nad yw'r gwasanaeth hwn ar gael os derbyniodd CBAC farciau eich canolfan heb eu newid.

Dylid ystyried y canlynol wrth gyflwyno cais am adolygiad o'r cymedroli ar ôl y canlyniadau:

- Dylid cyflwyno'r cais i CBAC gan ddefnyddio'r dull arferol.
- Nid yw'n angenrheidiol cael cydsyniad yr ymgeisydd.
- **Rhaid** derbyn ceisiadau cyfres Ionawr erbyn 9 Ebrill; **rhaid** i'r corff dyfarnu dderbyn y cais erbyn 20 Medi ar gyfer cyfres yr haf.


© WJEC CBAC Ltd.

- Y terfyn amser ar gyfer cwblhau yw o fewn 35 diwrnod calendr ar ôl i'r cymedrolwr dderbyn y sampl gwaith gwreiddiol gan y ganolfan.
- Cynhelir y gwaith o adolygu'r cymedroli ar y sampl gwreiddiol o waith ymgeiswyr.
- Gall yr adolygiad o'r cymedroli gynnwys adborth tebyg i'r hyn a ddarparwyd ar ôl y cymedroli gwreiddiol.
- Os adferir marciau'r ganolfan, ni fydd adborth yn cael ei roi.
- Ni fydd adolygiad o'r cymedroli'n cael ei gynnal ar waith ymgeisydd unigol nac ar waith ymgeiswyr nad oeddent yn y sampl gwreiddiol.

**Dim ond ar gyfer y gyfres y cyflwynwyd y cais ar ei chyfer y gellir adolygu'r cymedroli.**

Bydd gwaith a uwchlwythwyd ar IAMIS ar gael i'r cymedrolwr yn barod ac yn cael ei gyrchu fel y bo'n briodol.

Yn achos gwaith a gyflwynir am adolygiad o'r cymedroli, **rhaid**:
- bod yn waith gwreiddiol a gyflwynwyd i'w gymedroli;

Ewch i https://www.cbac.co.uk/home/gweinyddu/canlyniadau/#tab_0 am ragor o wybodaeth gan gynnwys y costau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth hwn.

## 7.4 Tystysgrifau

Caiff tystysgrifau eu rhyddhau i ganolfannau yn ystod tymor yr hydref ar ôl cyhoeddi canlyniadau. Ni fydd tystysgrifau'n cael eu rhyddhau cyn diwedd y terfyn amser ar ôl y canlyniadau, sef 20 Medi.


© WJEC CBAC Ltd.

# 8. CYMWYSTERAU ATEGOL AR GYFER BAGLORIAETH CYMRU (YMGEISWYR BLWYDDYN 11 YN UNIG)

## 8.1 Gofynion cymwysterau ategol

Sylwer mai cyfrifoldeb y ganolfan yw sicrhau bod cwrs astudio yn bodloni'r meini prawf a restrir isod cyn iddi gychwyn ar y cymhwyster. Argymhellir bod canolfannau'n gwirio'r cymhwyster ar ddechrau'r cwrs i wneud yn siŵr bod ymgeiswyr yn gallu bodloni'r gofynion wrth gyfnewid.

Mae angen cymwysterau llawn i fodloni'r meini prawf; ni ellir defnyddio unedau sydd wedi'u cyflawni.

Gellir gwirio meini prawf cymwysterau drwy ddefnyddio cronfa ddata Cymwysterau yng Nghymru
https://www.qiw.wales/qualifications/search?lang=cy

**Rhaid i bob cymhwyster gael ei reoleiddio gan Cymwysterau Cymru neu OFQUAL.**

| Lefel | Llythrennedd a Rhifedd | Cymwysterau ategol eraill |
|---|---|---|
| Cenedlaethol/Sylfaen **Sylfaen** | TGAU Saesneg Iaith neu TGAU Cymraeg Iaith (A*-G)<br>***a***<br>TGAU Mathemateg (A*-G)<br>***neu***<br>TGAU Mathemateg – Rhifedd (A*-G) | Lleiafswm o **dri** TGAU pellach gradd A*-G, dylai dau ohonynt fod yn gywerth ag o leiaf 240 ODA (120 ODA i un cymhwyster cywerth) |
| Cenedlaethol/Sylfaen **Cenedlaethol** | TGAU Saesneg Iaith neu TGAU Cymraeg Iaith (A*-C)<br>***a***<br>TGAU Mathemateg (A*-C)<br>***neu***<br>TGAU Mathemateg – Rhifedd (A*-C) | Lleiafswm o **dri** TGAU pellach gradd A*-C, dylai dau ohonynt fod yn gywerth ag o leiaf 240 ODA (120 ODA i un cymhwyster cywerth) |
| D.S. Gall y cymwysterau Llythrennedd a Rhifedd gael eu cwblhau yn ystod neu cyn cofrestru ar gyfer Bagloriaeth Cymru ond **rhaid** i'r cymwysterau ategol gael eu cyflawni yn ystod y cyfnod y mae'r ymgeisydd wedi'i ymrestru. | | |


© WJEC CBAC Ltd.

## 8.3 Cymwysterau Mathemateg a Saesneg a gyflawnir y tu allan i'r DU

Lle cyflawnwyd cymwysterau y tu allan i'r DU, mae gofyn i ganolfannau ddarparu tystiolaeth bod:

i. y cymhwyster yn gyfwerth â'r Radd TGAU/Lefel FfCC priodol i ganiatáu iddynt gyfrannu at Fagloriaeth Cymru yn lle TGAU Saesneg Iaith/Cymraeg Iaith a/neu Fathemateg/Mathemateg Rhifedd. Dim ond ychydig o gymwysterau sy'n gywerth ac yn dderbyniol o ran lefel â TGAU Saesneg.

Nid yw Cymraeg a Saesneg fel ail iaith yn dderbyniol.

ii. y cymhwyster yn ddigon eang o ran cynnwys a maint ac nid yw'n canolbwyntio ar un elfen ar y pwnc (er enghraifft ni fyddai cymhwyster Mathemateg sy'n trafod ystadegau yn unig yn ddigon i gymryd lle TGAU Mathemateg, waeth beth fo'r lefel).

Fodd bynnag, os yw dysgwr yn cyflawni cymhwyster Uwch Gyfrannol neu Uwch mewn Mathemateg neu Saesneg Iaith, derbynnir hyn fel cymhwyster ategol.

O ran pwynt i:

- Gwiriwch wefan UK ENIC: https://enic.org.uk/Default.aspx

Atgoffir canolfannau bod asesiad ar gael yn Gymraeg a/neu Saesneg. Ym mhob achos, dylai'r ganolfan sicrhau bod sgiliau iaith Saesneg/Cymraeg digonol gan y dysgwr i'w alluogi i gwblhau'r cymhwyster.


© WJEC CBAC Ltd.

# 9. GRADDIO AC ADRODD YN ÔL

## 9.1 Tystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen

Gellir dyfarnu gradd Sylfaen neu Genedlaethol i'r cymhwyster. Rhoddir gradd A*-C am y Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol. Ar gyfer dyfarniad Cenedlaethol, rhaid i ymgeiswyr gyflawni'r Project Unigol ynghyd ag unrhyw ddwy Her, gydag **o leiaf 120 o farciau GMU wedi'u cyfuno o'r tair cydran.**

Rhoddir gradd Llwyddiant* neu Lwyddiant am y Dystysgrif Her Sgiliau Sylfaen. Ar gyfer dyfarniad Sylfaen, **rhaid** i ymgeiswyr gyflawni'r Project Unigol ynghyd ag unrhyw ddwy Her, gydag o leiaf 60 o farciau GMU wedi'u cyfuno o'r tair cydran. Bydd y canlyniadau sy'n methu â chyrraedd y safon isaf ar gyfer y dyfarniad yn cael eu dangos fel U (annosbarthedig).

| | **Cenedlaethol** | | | | **Sylfaen** | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Ffiniau Graddau** | **A*** | **A** | **B** | **C** | **Llwyddiant*** | **Llwyddiant** | **U** |
| Cyfanswm GMU | 270 | 240 | 180 | 120 | 90 | 60 | 0 |
| % | 90% | 80% | 60% | 40% | 30% | 20% | 0% |

Mae cyfraniad y Project Unigol at y radd gyffredinol yn 50% a byddai cyfraniad y ddwy Her a ddewisir yn 25% yr un.

**Cydrannau**

Mae graddau cydrannau'n gyfystyr â graddau'r Dystysgrif: mae Rhagoriaeth Lefel 2 yn gyfystyr â gradd A, Teilyngdod Lefel 2 â gradd B, Llwyddiant Lefel 2 â gradd C a Llwyddiant Lefel 1 â Llwyddiant Sylfaen. Ar gyfer pob cydran, gosodir ffin Teilyngdod Lefel 2 yn rhifyddol, hanner ffordd rhwng ffiniau Llwyddiant Lefel 2 a Rhagoriaeth Lefel 2; pennir yr holl ffiniau graddau eraill yn ôl barn y cymedrolwr.

Pennir ffiniau gradd yn y drefn ganlynol:

| **Cydran** | **Pwysoli** | **Uchafswm marciau crai** | **Uchafswm marc GMU** | **Lefel 2 Rhagoriaeth** | **Lefel 2 Teilyngdod** | **Lefel 2 Llwyddiant** | **Lefel 1 Llwyddiant** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Project Unigol | 50% | 96 | 150 | 120 | 90 | 60 | 30 |
| Menter a Chyflogadwyedd | 25% | 36 | 75 | 60 | 45 | 30 | 15 |
| Dinasyddiaeth Fyd-eang | 25% | 36 | 75 | 60 | 45 | 30 | 15 |
| Cymuned | 25% | 36 | 75 | 60 | 45 | 30 | 15 |


© WJEC CBAC Ltd.

# 10. TREFNIADAU MYNEDIAD AC YSTYRIAETH ARBENNIG

Mae'r fanyleb ar gyfer y cymhwyster Bagloriaeth Cymru Cenedlaethol/Sylfaen a'r Dystysgrif Her Sgiliau Cenedlaethol/Sylfaen wedi'u dylunio i gynnig mynediad teg i bawb ac i leihau'r angen i wneud trefniadau mynediad/newidiadau rhesymol ar gyfer ymgeiswyr â gofynion arbennig. Fel arfer, disgwylir y bydd canolfannau wedi darparu ar gyfer gallu, diddordebau ac anghenion pob ymgeisydd unigol drwy ddewis o Friffiau'r Heriau a chymwysterau ategol.

## 10.1 Diffiniadau

Cytunir ar drefniadau mynediad/addasiadau rhesymol cyn asesiad. Maent yn caniatáu'r canlynol i ymgeiswyr/dysgwyr ag anghenion addysgol ychwanegol, anableddau neu anafiadau dros dro:

- cael mynediad i'r asesiad;
- dangos yr hyn maent yn ei wybod ac yn gallu ei wneud heb newid gofynion yr asesiad

Ystyriaeth Arbennig – addasiad ar ôl yr asesiad i farc/gradd ymgeisydd i adlewyrchu salwch dros dro, anaf dros dro neu anhwylder arall ar adeg yr asesu. Gellir rhoi ystyriaeth arbennig i ymgeiswyr cymwys sydd:

a) yn bresennol ar gyfer asesiad ond o dan anfantais;
b) yn absennol o ran o asesiad oherwydd salwch neu reswm derbyniol arall – mae hyn yn berthnasol i'r gyfres derfynol yn unig.

## 10.2 Gweithredu Trefniadau Mynediad yn yr Heriau ac yn y Project Unigol

**Rhaid** gwneud cais ar gyfer yr holl drefniadau mynediad ar ddechrau'r cwrs a dylent gael eu cymeradwyo cyn yr asesiadau.

Mae'n bosibl y bydd Trefniadau Mynediad/Addasiadau Rhesymol yn berthnasol pan fydd ymgeisydd yn gwneud her unigol neu'r Project Unigol er mwyn caniatáu i'r ymgeiswyr ddangos eu gallu wrth sicrhau na newidir gofynion yr asesiad. Fodd bynnag disgwylir bod her briodol yn cael ei dewis er mwyn lleihau'r angen am drefniadau o'r fath.

Mewn Heriau gwaith tîm, dim ond pan fydd aelodau eraill o'r tîm yn methu cymryd cyfrifoldeb (er enghraifft, gweler senario posibl 2, adran 10.6) y bydd Trefniadau Mynediad/Addasiadau Rhesymol yn berthnasol, sy'n sicrhau na fydd gan aelodau eraill o'r tîm fantais annheg.


© WJEC CBAC Ltd.

## 10.3 Gweithredu Ystyriaeth Arbennig yn y Project Unigol

Bydd Ystyriaeth Arbennig yn berthnasol i'r Project Unigol yn unig.

I fod yn gymwys am Ystyriaeth Arbennig:

- Rhaid i ymgeiswyr fod wedi cwblhau 2 o'r 3 o gydrannau dewisol, h.y. Menter a Chyflogadwyedd, Dinasyddiaeth Fyd-eang, Her y Gymuned.
- Rhaid i ymgeiswyr fod wedi cwblhau 2 ddeilliant dysgu ar gyfer y Project Unigol.

Rhaid i'r rheswm dros beidio â chwblhau'r Project Unigol fod yn dderbyniol (gweler Adran 2 o Canllawiau Ystyriaeth Arbennig y CGC).

I wneud cais am ystyriaeth arbennig rhaid i ganolfannau gyflwyno cais gan ddefnyddio **Ffurflen 10 – JCQ/SC**. Mae'r ffurflen hon ar gael ar wefan y CGC – https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/regulations-and-guidance/

Dylid dychwelyd y ffurflen i'r adran Gofynion Arbennig,specialrequirements@wjec.co.uk . Dylid atodi tystiolaeth ychwanegol fel bo'n briodol.

## 10.4 Gwaith ar goll sydd wedi'i asesu gan ganolfannau

Os yw gwaith ymgeisydd (heb fod yn fai arno) ar goll yn y ganolfan arholiadau, ac er gwaethaf pob ymdrech, nid oes modd dod o hyd iddo, neu os yw wedi'i ddinistrio'n ddamweiniol, dylid hysbysu'r sefydliad dyfarnu o'r amgylchiadau ar unwaith drwy ddefnyddio **Ffurflen 15** – **JCQ/LCW.** Mae'r ffurflen hon ar gael ar wefan y CGC – https://www.jcq.org.uk/exams-office/coursework/

## 10.5 Eithriadau

Ni wneir unrhyw eithriadau ar gyfer yr Heriau na'r Project Unigol.


© WJEC CBAC Ltd.

## 10.6 Senarios posibl

1. Os yw tîm yn colli un o'i aelodau ac felly'n rhy fach i fodloni'r gofynion (**rhaid** cael rhwng 3 a 6 aelod mewn tîm) yr opsiwn cyntaf yw y dylai'r aelodau sy'n weddill ymuno â grŵp arall.

   **Rhaid** i unrhyw aelod o dîm nad yw wedi gallu gorffen yr Her ddod ag unrhyw waith a gwblhawyd gydag ef/hi pan fydd yn ymuno â'r grŵp newydd.

   Os nad yw ymuno â thîm arall yn opsiwn, o ystyried amseru'r Asesiad dan Reolaeth a/neu faint y grŵp (e.e. mae gan bob grŵp yr uchafswm o 6 aelod), gall ymgeisydd gwblhau'r Her fel unigolyn, ar yr amod ei fod wedi dangos/yn mynd i ddangos tystiolaeth o weithio mewn tîm mewn Her arall. **Bydd hyn yn berthnasol hyd yn oed i Her lle mae gweithio mewn grŵp yn orfodol.**

   Noder: cewch eich cynghori i beidio â gadael Heriau lle mae gwaith tîm yn ofynnol nes ddiwedd y cwrs.

2. Mae gan ymgeisydd sy'n rhan o dîm drefniant mynediad/addasiad rhesymol a gytunwyd am ysgrifennydd a 25% o amser ychwanegol. Fodd bynnag, gan fod aelod arall o'r tîm yn gallu cymryd cofnodion yn ystod cyfarfodydd, nid yw'r trefniant/addasiad rhesymol hwn yn angenrheidiol.

3. Mae ymgeisydd yn absennol ac yn methu cwblhau'r Project Unigol am reswm dilys. Nid oes cyfle pellach i'r ymgeisydd gwblhau'r Project Unigol a dyma'r asesiad terfynol. Mae’r ymgeisydd wedi cwblhau o leiaf dau ddeilliant dysgu o'r Project Unigol; felly mae'r ganolfan yn gymwys am Ystyriaeth Arbennig.

## 10.7 Gwybodaeth bellach

Am wybodaeth bellach ynglŷn â threfniadau mynediad gweler dogfen y CGC: *Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol* – ar gael o https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/regulations-and-guidance

Am wybodaeth bellach ynglŷn ag Ystyriaeth Arbennig gweler dogfen y CGC: *Canllaw i'r broses ystyriaeth arbennig* – ar gael o https://www.jcq.org.uk/exams-office/access-arrangements-and-special-consideration/regulations-and-guidance


© WJEC CBAC Ltd.

# 11. CAMYMDDWYN

**Rhaid** rhoi gwybod i CBAC am achosion honedig o gamymddwyn neu gamweinyddu gan ymgeisydd, y ganolfan neu staff y ganolfan gan ddefnyddio polisïau a gweithdrefnau 'Amau Camymddwyn mewn Arholiadau ac Asesiadau'.

Am fwy o wybodaeth ewch i: https://www.jcq.org.uk/exams-Office/malpractice


© WJEC CBAC Ltd.

# 12. GEIRFA

| | |
|---|---|
| **Bagloriaeth Cymru** | Dyma'r fframwaith drosfwaol y mae'r Dystysgrif Her Sgiliau a chymwysterau ategol yn ei ffurfio. |
| **Tystysgrif Her Sgiliau** | Mae hwn yn gymhwyster annibynnol sy'n cynnwys Project Unigol a thair cydran Her - yr Her Menter a Chyflogadwyedd, Her Dinasyddiaeth Fyd-eang ac Her Gymunedol. Rhaid i ymgeiswyr gwblhau'r Project Unigol yn ogystal ag unrhyw ddwy o'r tair cydran Her i gwblhau'r cymhwyster. |
| **Elfen** | Gall elfen gyfeirio at unrhyw ran o gymhwyster Bagloriaeth Cymru – e.e. y Dystysgrif Her Sgiliau, y cydrannau unigol, a'r cymwysterau ategol. |
| **Cydran** | Ystyr cydran yn benodol yw'r elfennau hynny ar y Dystysgrif Her Sgiliau h.y. y Project Unigol, yr Her Menter a Chyflogadwyedd, yr Her Dinasyddiaeth Fyd-eang, a Her y Gymuned. |
| **Cymwysterau Ategol** | Dyma'r cymwysterau, o'u hystyried gyda'r Dystysgrif Her Sgiliau, sy'n cyfrannu at ganlyniad cyffredinol Bagloriaeth Cymru. |
| **Safoni** | Dyma'r broses y mae CBAC yn ei defnyddio i sicrhau bod marciau ymgeiswyr yn cael eu dyfarnu'n gyson ac yn fanwl gywir. Dau fath o gymedroli sydd yna – mewnol ac allanol. Canolfan sy'n cwblhau'r cymedroli mewnol i sicrhau bod cysondeb ar draws carfan. CBAC sy'n cwblhau'r cymedroli allanol drwy adolygu sampl o ymgeiswyr canolfan i sicrhau bod y meini prawf cyhoeddedig wedi'u cynnal ar draws canolfannau. |
| **Agregu** | Y broses a ddefnyddir i gyfuno'r holl elfennau er mwyn cyflawni canlyniad cyffredinol ar gyfer Bagloriaeth Cymru. |
| **E-gyflwyno** | Dull electronig o gyflwyno gwaith i'w gymedroli gan ganolfannau. |
| **GMU** | Y Raddfa Marciau Unffurf, a ddefnyddir gan fanylebau unedol, i sicrhau hygyrchedd a chymaroldeb ar draws cyfresi gwahanol. Defnyddir y GMU er mwyn i ymgeiswyr sy'n cyrraedd yr un safon dderbyn yr un marc unffurf, heb ystyried pryd y safwyd y gydran. |
| **IAMIS** | Y sgrin mewnbynnu marciau ar-lein. I'w gael ar Porth, caiff ei ddefnyddio i fewnbynnu marciau ymgeiswyr, creu samplau ac i ganolfannau uwchlwytho samplau ar gyfer cymedroli. |


© WJEC CBAC Ltd.

# 13 ATODIADAU

## 13.1 Gorgyffwrdd rhwng y Project Unigol â Chymwysterau Eraill

Mae'r fanyleb wedi'i chynllunio i ganiatáu'r hyblygrwydd mwyaf posibl ar gyfer canolfannau, ac i ymgeiswyr fodloni eu diddordebau unigol. Mae cynnwys y pwnc yn rhoi'r cyfle i ddilyn astudiaeth feirniadol, ymarferol neu ddamcaniaethol integredig yng nghyd-destun Project Unigol. Gall fod rhywfaint o orgyffwrdd sgiliau a/neu cynnwys pwnc gyda chyrsiau eraill. Fodd bynnag, mae cyd-destun a'r dull o ymdrin â'r sgiliau a'r cynnwys yn y manylebau yn wahanol iawn i rai cymwysterau eraill. Mae'r Project Unigol wedi'i gynllunio i ymestyn a datblygu tu hwnt i raglen astudio ymgeisydd. Os yw ymgeisydd yn ceisio cyflwyno darn o waith cwrs ar gyfer cymhwyster arall fel project, yn dibynnu'n fawr ar werslyfrau neu'n dewis testun sy'n ganolog i un o'i gyrsiau astudio eraill, ni fydd yn ymestyn nac yn datblygu y tu hwnt i'r hyn y mae eisoes wedi'i ddysgu neu y bydd yn ei ddysgu cyn diwedd y cwrs. Argymhellwn fod ymgeiswyr yn defnyddio'u hastudiaethau fel sbardun i lansio eu Project Unigol i faes sydd o ddiddordeb arbennig i'r ymgeisydd. Os bernir bod Project Unigol yn rhy debyg ei natur neu gynnwys i destun sy'n cael ei drafod yn un o'i gyrsiau astudio eraill, gall hyn fod yn gamymddwyn.


© WJEC CBAC Ltd.